Dull Cyllido Ymchwil Ôl-radd

Bob blwyddyn bydd CCAUC yn sefydlu cyfanswm y cyllid sydd i'w ddarparu ar gyfer Ymchwil Ôl-radd, ynghyd â'r uned gyllido safonol ar gyfer pob un o'r tri grŵp o bynciau cysylltiedig (Categorïau Pwnc Academaidd - CPA).

Caiff grantiau ar gyfer SAUau eu cyfrifo dryw gymhwyso'r uned safonol o gyllid Ymchwil Ôl-radd ar gyfer y CPA perthnasol i ymrestriadau Ymchwil Ôl-radd cymwys y flwyddyn gynt yn y CPA hwnnw. I'w ystyried yn ymrestriad cymwys, mae'n rhaid i fyfyriwr fod:

- yn fyfyriwr cartref / yr UE
- mewn adran sy'n derbyn cyllid YA
- o fewn terfynau amser penodedig ar gyfer astudio - tair blynedd ar gyfer PhD amser llawn, dwy flynedd ar gyfer MPhil amser llawn, a'r hyn sy'n cyfateb ar gyfer cwrs rhan-amser

Pan fydd cyfanswm y dyraniadau ar gyfer y sector, yn sgil gweithredu'r fformiwla, yn uwch na'r cyllid sydd ar gael, ni fydd cyfran o ymrestriadau cymwys yn denu cyllid. Bydd cyllid a ddarperir i sefydliadau ar gyfer Ymchwil Ôl-radd yn cael ei ddarparu ar ffurf grant bloc.

Dangosir yr unedau cyllido safonol ar gyfer Ymchwil Ôl-radd yn 2019/20 isod

Unedau cyllido safonol 2019/20

Grwpiau Categori Pwnc Academaidd		**Uned Gyllido £ fesul myfyriwr amser llawn**
1b, 1d	Meddygaeth a Deintyddiaeth Glinigol	8,444
3, 4, 6	Gwyddoniaeth; Peirianneg a Thechnoleg; Gwyddorau Mathemategol, TG a Chyfrifiadura	2,996
2, 5, 7-10, 11b	Arall	1,517